



CYNGOR • TREF  
LLANDUDNO  
TOWN • COUNCIL

Neuadd y Dref • Lloyd Street • Llandudno • Gogledd Cymru • LL30 2UP  
Town Hall • Lloyd Street • Llandudno • North Wales • LL30 2UP

☎ (01492) 879130 • 📠 (01492) 879130

🌐 [www.llandudno.gov.uk](http://www.llandudno.gov.uk) • epost/email: [towncouncil@llandudno.gov.uk](mailto:towncouncil@llandudno.gov.uk)

Annwyl Breswylydd,

Rydym yn wynebu cyfnod hynod bryderus ac anodd ar hyn o bryd. Hoffwn felly fanteisio ar y cyfle i apelio i holl drigolion Llandudno gydymffurfio gyda Chanllawiau'r Llywodraeth a'r Swyddogion Iechyd a chyfyngu ar gysylltiad eich teulu gydag eraill, cymaint â phosib. Os oes angen ichi adael eich cartref, i gadw'n heini neu fynd i siopa, gofynnwn yn garedig ichi gydymffurfio gyda'r canllawiau, er eich diogelwch chi'ch hun a diogelwch eraill.

Dydy hi ddim yn teimlo'n ddigonol imi ei ysgrifennu'n unig ond hoffwn ddiolch o galon i ein gweithwyr allweddol a rheng flaen hynod weithgar ynghyd â'r gwirfoddolwyr cwbl anhunanol. Maen nhw i gyd yn dangos eu gwydnwch ac yn mynd y tu hwnt i'r galw yn y cyfnod heriol a digynsail hwn.

Mae sawl dolen ar dudalen cartref gwefan Cyngor Tref Llandudno, gyda'r newyddion diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gallwch ddod o hyd i fanylion ar sut i gofrestru fel gwirfoddolwr yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn. Cliciwch ar y ddolen a chysylltwch gydag un o'r tri dewis. Mae yna hefyd boster Pwynt Cyswllt Sengl ar gyfer unrhyw un sydd mewn angen neu sy'n hunan ynysu. Os wyddoch chi am unrhyw un, gofalwch eu bod yn ymwybodol bod modd iddyn nhw ffonio'r rhif gan yr Awdurdod Lleol i ofyn am unrhyw gymorth/cefnogaeth y mae'n bosib y bydd eu hangen arnyn nhw: 01492 575544.

Ceisiwch gadw'n ddiogel ac iach. Rydw i'n hyderus y bydd cymuned Llandudno yn goresgyn y cyfnod caled hwn.

Cofion gorau,

Y Cyng. Angela O'Grady  
Maer Llandudno